



Archwilydd Cyffredinol Cymru

Auditor General for Wales

# Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau

Adroddiad ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru




# Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau

Adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyflwynir i'r Cynulliad Cenedlaethol ar

30 Tachwedd 2000

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Tachwedd 2000

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu weithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
23-24 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3BA

Tel: 029 20 37 8661

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm

# CYNNWYS

**Crynodeb Gweithredol** 1

**Prif Adroddiad** 3

Cyflwyniad 3

Y Broses Bresennol ar gyfer Presgripsiynau 5

Profi'r fframwaith rheoli 7

Tystysgrifau Awdurdodau Iechyd 13

Eithriadau sy'n ymwneud â Budd-daliadau 14

Categorïau eithrio eraill 16

Achosion lle na nodwyd unrhyw Gategori Eithrio 17

Pa mor dda y mae'r gwiriadau wrth ddosbarthu yn gweithredu'n ymarferol? 17

Anawsterau wrth brosesu a brofir gan Health Solution Wales ar hyn o bryd 18

Datblygiadau Eraill 20

Casgliad ac argymhellion 21

**Atodiad 1** 23

# CRYNODEB GWEITHREDOL

**1** Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif bod fferyllwyr yng Nghymru yn dosbarthu tua 40 miliwn o eitemau y flwyddyn. Mae'n disgwyl mai £380 miliwn fydd cyfanswm y gwariant gros yng Nghymru ar gyffuriau a chyfarpar a ragnodir yn 2000-01, sef ffigur sy'n cyfateb i 13 y cant o gyfanswm y gwariant amcangyfrifedig ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i unigolion dalu £6 am bob eitem a ragnodir iddynt gan feddyg. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o bobl wedi eu heithrio rhag taliadau presgripsiwn oherwydd eu hoedran, eu cyflwr meddygol neu am eu bod yn cael budd-dâl nawdd cymdeithasol sydd yn ei dro yn caniatáu iddynt gael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu am ddim. Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif y bydd taliadau presgripsiynau yn cynhyrchu £23 miliwn o incwm yn ystod 2000-01.

**2** Bu pryder ers tro bod refeniw posibl oddi wrth daliadau presgripsiynau yn cael ei golli. Ar 1af Ebrill 1999 cyflwynwyd gwiriadau newydd wrth ddosbarthu yng Nghymru a Lloegr a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion gyflwyno tystiolaeth sy'n cadarnhau i'r fferyllydd eu bod yn gymwys i gael eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau. Nod y trefniadau newydd oedd lleihau'r elfen o golled mewn incwm yn hytrach na'i dileu. Fe'u seiliwyd ar y gydnabyddiaeth bod dosbarthu meddyginiaethau yn rhan hanfodol o waith y fferyllydd ac ni ddylai hyn gael ei atal oherwydd anallu'r unigolyn i brofi ei fod wedi ei eithrio.

**3** Archwiliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y trefniadau a sefydlwyd yng Nghymru ar gyfer sicrhau'r incwm oddi wrth daliadau presgripsiynau. Gan weithio mewn cydweithrediad â Health Solutions Wales, y pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru, yr Asiantaeth Budd-daliadau a sefydliadau eraill, dadansoddodd sampl o ymron i 2,000 o ffurflenni presgripsiwn yn fanwl. Darganfu nad oedd hawl gan yr unigolyn, ar yr olwg gyntaf, i gael ei eithrio mewn 9 y cant o achosion lle yr hawliwyd eithriad rhag taliadau presgripsiynau. Ar y sail hon, amcangyfrifodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod tua £15 miliwn o incwm yn cael ei golli o bosibl o ganlyniad i ganiatáu i unigolion nad oeddent yn bodloni'r meini prawf perthnasol gael eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau.

**4** Cyfrannodd dau ffactor at y sefyllfa hon. Yn gyntaf, mae'n bosibl nad yw rhai fferyllwyr yn gwneud y gwiriadau wrth ddosbarthu mor ofalus neu mor gyson ag sydd ei angen yn ôl eu hamodau gwasanaeth. Yn ail, nid oes unrhyw drefniadau yn eu lle sy'n ategu'r gwiriadau wrth ddosbarthu gyda gwaith dilynol systematig a chynhwysfawr o achosion o eithrio gan gynnwys, er enghraifft, yr achosion hynny lle mae unigolyn wedi hawlio eithriad rhag taliadau presgripsiynau ond nad oedd wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod hawl ganddo.

**5** Nododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod y risgiau a nodwyd ganddi mewn perthynas ag eithrio rhag taliadau presgripsiynau yn llawer ehangach. Y rheswm am hyn yw bod y meini prawf sy'n sicrhau eithriad rhag taliadau presgripsiynau yn go debyg i'r rhai sy'n sicrhau mynediad am ddim i wasanaethau gofal iechyd sylfaenol eraill megis triniaeth ddeintyddol a rhai gwasanaethau opthalmig . Bwriad y Cynulliad yw cyflwyno gwiriadau eithrio wrth roi triniaeth ar gyfer gwasanaethau deintyddol ar 1 Ionawr 2001 a gwiriadau eithrio wrth roi gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau optegol ym mis Chwefror 2001.

**6** Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn argymell y dylai'r Cynulliad ddefnyddio'r cyfle a roddir gan achlysur lansio'r trefniadau newydd i bwysleisio unwaith eto i'r fferyllwyr pa mor bwysig yw'r gwiriadau wrth ddosbarthu a'r rôl allweddol y mae'r fferyllwyr yn ei chwarae wrth gadarnhau cymhwyster ar gyfer eithriad. Mae angen hefyd i'r Cynulliad ddatblygu prosesau sy'n ategu'r gwiriadau wrth ddosbarthu a galluogi gwiriadau dilynol systematig ac effeithiol sy'n cadarnhau cymhwyster ar gyfer eithriad. Yn ogystal, mae angen i'r Cynulliad ystyried a ddylai ddatblygu gwiriadau ategol tebyg ar gyfer y gwiriadau eithrio newydd wrth roi triniaeth a'r gwiriadau eithrio newydd wrth roi gwasanaeth.

# PRIF ADRODDIAD

## Cyflwyniad

**1** Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau archwiliad a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r refeniw a gynhyrchir gan daliadau presgripsiynau ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. Nod yr archwiliad oedd asesu pa mor effeithiol oedd y fframwaith rheoli a sefydlwyd i sicrhau incwm oddi wrth daliadau presgripsiynau a sicrhau bod y rhai sydd â'r hawl i gael eu heithrio rhag talu taliadau presgripsiynau yn cael y budd hwn.


**2** Mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad byr o'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle ar hyn o bryd er mwyn mwyhau'r incwm oddi wrth daliadau presgripsiynau. Yna, mae'n mynd ymlaen i nodi canlyniadau archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r trefniadau hyn yn go fanwl. Diben yr archwiliad oedd asesu pa mor effeithiol y gweithredai'r rheoliadau a chaniatáu i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru amcangyfrif maint y refeniw sy'n cael ei golli o bosibl o ganlyniad i'r rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu'n wael neu'n aneffeithiol. Mae'r adroddiad yn nodi datblygiadau cysylltiedig eraill sydd wedi cael effaith ar swm y refeniw a gynhyrchir gan ffioedd presgripsiwn ac a fydd yn parhau i gael effaith. Mae'r adroddiad yn cloi trwy nodi cyfres o argymhellion gyda'r bwriad o helpu'r Cynulliad i sicrhau bod y gwiriadau a'r rheolaethau a sefydlwyd ganddo ar gyfer goruchwylio'r broses o dalu ffioedd presgripsiwn yn gweithredu mor effeithiol â phosibl.

**3** Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif y dosberthir tua 40 miliwn o eitemau bob blwyddyn yng Nghymru. Ym 2000-01 bydd y gwariant gros amcangyfrifedig ar gyffuriau a chyfarpar a ragnodir yng Nghymru yn 2000-01 yn uwch na £380 miliwn. Ffigur sy'n cyfateb i 13 y cant o gyfanswm gwariant amcangyfrifedig ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Ers 1990-91 mae'r gwariant ar eitemau a ragnodir yng Nghymru wedi cynyddu tua 130 y cant mewn termau arian parod a 58 y cant mewn termau real. Ymhlith y ffactorau a gyfrannodd at hyn yw cynnydd yn nifer yr eitemau a ddosberthir bob blwyddyn a'r gost gynyddol o'r eitemau unigol.

**4** O dan Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau ar gyfer Cyffuriau a Chyfarpar) 1989, mae rhaid i unigolion dalu £6 am bob eitem a ragnodir iddynt gan feddyg pan fyddant yn cyflwyno'r presgripsiwn i'r fferyllydd i'w ddosbarthu. Fodd bynnag, caiff nifer sylweddol o bobl eu heithrio rhag talu ffioedd presgripsiwn oherwydd, er enghraifft, eu hoedran, eu cyflwr meddygol, neu am eu bod yn cael budd-dâl nawdd cymdeithasol sydd yn ei dro yn caniatáu iddynt gael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu yn rhad ac am ddim (Ffigwr 1). Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif mai cyfanswm yr incwm a gynhyrchir gan ffioedd presgripsiwn yn ystod 2000-01 fydd £23 miliwn.

**5** Ym 1996 comisiynodd yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gymreig ymarfer archwilio i asesu faint o geisiadau anghywir neu dwyllodrus am eithriad a wnaed gan gleifion yr NHS a ddylai fod yn talu taliadau presgripsiynau. Arolygodd mesurau a gymerwyd ar y pryd neu'r mesurau y bwriadwyd eu cymryd i atal ac ymchwilio hyn a darbwyllo pobl rhag ei wneud ac hefyd argymhellodd unrhyw fesurau cost effeithiol pellach y gellid eu cymryd. Cyhoeddwyd yr adroddiad "Prescription Fraud, An Efficiency Scrutiny" ym 1997. Daeth y tîm archwilio i'r casgliad bod dros ddeg y cant o'r refeniw posibl oddi wrth daliadau presgripsiynau yn cael ei golli ledled Cymru a Lloegr. Amcangyfrifwyd mai rhwng £70 a £100 miliwn y flwyddyn oedd y colledion yn Lloegr - ni ddyfynnwyd ffigurau cyfatebol yn yr adroddiad ar gyfer Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, argymhellodd yr adroddiad y dylid cyflwyno gwiriadau wrth ddosbarthu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion roi tystiolaeth i gadarnhau i'r fferyllydd eu bod yn gymwys i gael eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau.

**Ffigwr 1: Eithrio rhag talu taliadau presgripsiynau**


FP10 C

SYLWER — Rhaid i gleifion nad ydynt yn gorfod talu (neu'u cynrychiolwyr) lenwi rhannau 1a 3. Rhaid i'r rhai sy'n gorfod talu lenwi rhannau 2 a 3.

Gall y wybodaeth sydd ar y ffurflen hon gael ei datgelu i gyrff cyhoeddus eraill at ddibenion gwirio hawl ac atal neu ddatgelu twyll.

**Rhan 1** — Nid oes yn rhaid i'r claf dalu os yw ef/hi:

| | | |
|---|---|---|
| A | X | o dan 16 oed |
| B | X | yn 16,17 neu 18 oed *ac* mewn addysg llawn amser |
| C | X | yn 60 oed neu drosodd |
| D | X | yn meddu ar dystysgrif eithrio mamolaeth |
| E | X | yn meddu ar dystysgrif eithrio meddygol |
| F | X | yn meddu ar dystysgrif rhag-dalu prescripsiwn |
| G | X | yn meddu ar dystysgrif eithrio Pensiwn Rhyfel |
| L | X | wedi'i (h)enwi ar dystysgrif taliadau HC2 gyfredol |
| H | X | *yn derbyn Cymhorthdal Incwm |
| K | X | *yn derbyn Lwfans Chwilio am Waith wedi'i seilio ar Incwm |
| I | X | *yn derbyn Credyd Teulu (yn diweddu 03.04.2000) |
| J | X | *yn derbyn Lwfans Gwaith i'r Anabl (yn diweddu 03.04.2000) |
| M | X | *yn derbyn Credyd neu Gredyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio sydd wedi'i leihau £70 neu lai |
| N | X | *yn derbyn Credyd neu Gredyd Treth Personau Anabl wedi'i leihau £70 neu lai |

* *Rhowch fanylion isod y person sy'n derbyn y cymhorthdal neu gredyd. Gall fod chi'ch hunan neu'n bartner.*

*Enw: | *Dyddiad geni* / /

X X — wedi cael prescripsiwn atal cenhedlu am ddim

**Datganiad** *I gleifion nad oes yn rhaid iddynt dalu* — Yr wyf yn datgan nad oes yn rhaid i'r claf dalu am gostau prescripsiwn yr NHS, fod ganddo/ganddi'r hawl i unrhyw gymhorthdal, dystysgrif neu unrhyw achos eithrio arall a nodir uchod a bod y wybodaeth yn wir ac yn gyflawn. Llofnodwch a llenwch Ran 3

**Rhan 2** — Yr wyf wedi talu £ — Llofnodwch a llenwch Ran 3

**Rhan 3** — Myfi yw'r X claf X cynrychiolydd y claf

Llofnodwyd — Dyddiad / /

Enw

Cyfeiriad

Cod Post

RHYBUDD — Gall gwybodaeth ffug arwain at gael eich erlyn neu at gamau cyfreithiol.

FP10C0899

- Mae tudalen gefn y ffurflen bresgripsiwn a atgynhyrchir uchod yn nodi'r gwahanol gategorïau o bobl sydd â'r hawl i gael presgripsiynau am ddim. Rhoddwyd dros 85% o'r presgripsiynau yn y sampl a ddetholwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ddi-dâl.
- Lle y caiff cleifion eu heithrio rhag talu mae angen iddynt gwblhau'r adran berthnasol o Ran 1 yn ogystal â Rhan 3 o'r ffurflen. Mae hyn yn golygu nad yw Health Solutions Wales yn didynnu'r tâl presgripsiwn o'r swm sy'n ddyledus i'r fferyllydd ar gyfer y cyffuriau a'r cyfarpar a ddosberthir pan fydd yn prisio'r presgripsiwn. O dan y rheoliadau presennol gall fferyllwyr lofnodi Rhan 3 o'r ffurflen yn rhinwedd eu swydd fel cynrychiolydd y claf.
- Lle na chaiff cleifion eu heithrio rhag talu dylent gwblhau Rhan 2 o'r ffurflen gan nodi'r swm a dalwyd yn ogystal â Rhan 3 o'r ffurflen. Yn yr achosion hyn mae Health Solutions Wales yn didynnu'r swm a gesglir gan y fferyllydd pan fydd yn cyfrifo'r taliad sy'n ddyledus iddyn nhw am y cyffuriau a'r cyfarpar a ddosberthir.

**6** Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad ac ar 1 Ebrill 1999 cyflwynwyd gwiriadau newydd wrth ddosbarthu yng Nghymru a Lloegr. Gan y byddai'r gwiriadau newydd hyn yn golygu ymestyn rôl y fferyllydd i raddau, cytunodd y Swyddfa Gymreig a'r Adran Iechyd â'r Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol y byddai £1.85 miliwn ychwanegol yn cael eu dyrannu ar gyfer tâl fferyllwyr ledled Cymru a Lloegr ym 1998-99. Fe'i dyrannwyd i dalu am gostau hyfforddi ar gyfer fferyllwyr a'u staff. Yn ogystal ychwanegwyd £12.25 miliwn at dâl fferyllwyr yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999-2000. Roedd hyn yn dâl i fferyllwyr am wneud gwiriadau wrth ddosbarthu. Cynhwysir y taliadau hyn yng nghyfanswm tâl fferyllwyr o £755.1 miliwn ac ni ellir eu nodi ar wahân yng nghyfrifon yr Awdurdodau Iechyd, ond mae'r Cynulliad yn amcangyfrif mai tua £0.8 miliwn fyddai'r cyfanswm ym 1999-2000 yng Nghymru.

**7** Cynyddodd incwm taliadau presgripsiynau o bob ffynhonnell o £19.56 miliwn ym 1998-99 i £21.54 miliwn ym 1999-2000. Gellir tadogi'r cynnydd hwn yn rhannol i effaith cyflwyno'r gwiriadau newydd wrth ddosbarthu. Ymhlith y ffactorau eraill a gyfrannodd at y cynnydd oedd y nifer gynyddol o eitemau a ddosbarthwyd bob blwyddyn (paragraff 3) a'r cynnydd yn y tâl presgripsiwn o £5.80 yr eitem ym 1998-99 i £5.90 ym 1999-2000. Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif bod yr incwm ychwanegol a gynhyrchwyd gan y gwiriadau newydd wrth ddosbarthu yn fwy na ddwywaith y taliadau ychwanegol a wnaed i fferyllwyr ar y cyfan.

**8** Yn erbyn y cefndir hwn, arolygodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y trefniadau sydd bellach yn eu lle yng Nghymru er mwyn asesu i ba raddau y maent yn darparu fframwaith rheoli effeithiol er mwyn mwyhau'r refeniw oddi wrth daliadau presgripsiynau. Tra sicrhau ar yr un pryd bod dim ond y rhai sydd wedi eu heithrio rhag talu'r taliadau hyn yn manteisio ar eu hawl i'r budd.

## Y Broses Bresennol ar gyfer Presgripsiynau


**9** Dengys Ffigwr 2 y broses bresennol dros ddelio â phresgripsiynau yng Nghymru, o'r adeg pan fydd meddyg teulu yn rhoi ffurflen bresgripsiwn i'r taliadau terfynol i fferyllwyr ar gyfer y cyffuriau a'r cyfarpar a ddosbarthwyd ganddynt. Ymhlith y pwyntiau allweddol i'w nodi mae'r canlynol:

- Bob mis mae fferyllwyr yn anfon yr holl bresgripsiynau a ddosbarthwyd ganddynt i Health Solutions Wales, sef y corff sy'n gyfrifol am brisio'r cyffuriau a'r cyfarpar a ddosberthir.

- Mae Health Solutions Wales yn rhan o Awdurdod Iechyd Bro Taf. Ar sail y rhestr brisiau o gyffuriau a baratoir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a'r Cynulliad mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol, mae Health Solutions Wales yn cyfrifo'r taliad sy'n ddyledus i bob fferyllydd am yr eitemau a ddosbarthwyd ganddynt. Wrth gyfrifo hyn mae Health Solutions Wales yn ystyried unrhyw daliadau presgripsiynau a gasglwyd gan fferyllydd. Mae'n didynnu'r rhain o'r taliad sy'n ddyledus i'r fferyllydd.

- Mae Health Solutions Wales yn trosglwyddo'r wybodaeth am brisiau i'r pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru. Ar sail y data hwn mae pob Awdurdod Iechyd yn gwneud y taliadau priodol i'r fferyllwyr yn ei ardal.

**Ffigwr 2: Trosolwg o'r Broses Bresgripsiynau[1]**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

(1) Caiff y rhan fwyaf o'r presgripsiynau yng Nghymru eu dosbarthu trwy fferyllwyr a gontractir. Mae'r ffigur hwn yn dangos y broses ar gyfer y contractwyr hyn. Lle y caiff presgripsiynau eu dosbarthu trwy feddygon sy'n dosbarthu mae rhai gwahaniaethau yn y broses ac nid adlewyrchir y rhain yn y ffigur hwn.

(2) Mae Health Solutions Wales yn darparu nifer o wasanaethau TG cyffredin i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae prisio presgripsiynau yn un o'r gwasanaethau hyn. Roedd Health Solutions Wales gynt yn rhan o Awdurdod Gwasanaethau Iechyd Cyffredin Cymru ac mae bellach yn rhan o Awdurdod Iechyd Bro Taf.

(3) Y pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru yw Bro Taf, Dyfed Powys, Gwent, Iechyd Morgannwg a Gogledd Cymru.

(4) Mae Health Solutions Wales hefyd yn anfon peth gwybodaeth yn uniongyrchol am ragnodi i'r Grwpiau Iechyd Lleol a Meddygon Teulu.

- Mae'r system hon yn ffynhonnell ardderchog o ddata o ran cost rhagnodi a phatrymau rhagnodi. Er enghraifft, mae Health Solutions Wales yn cynhyrchu adroddiadau ariannol misol ar ddosbarthu ac adroddiadau archwilio ar ragnodi ar gyfer yr Awdurdodau Iechyd. Mae'r adroddiadau archwilio yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer pob Grŵp Iechyd Lleol a phractis meddyg teulu o fewn yr Awdurdod Iechyd. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Iechyd hefyd yn cael adroddiad chwarterol sy'n dangos maint y rhestrau, y costau a'r cymarebau sy'n ymwneud ag unedau rhagnodi ar gyfer pob meddyg teulu. Mae'r Awdurdodau Iechyd hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchir trwy'r system hon i fonitro'r tueddiadau o ran rhagnodi.

**10** O ran sicrhau incwm oddi wrth daliadau presgripsiynau, y rheolaeth allweddol yn y broses yw'r gwiriadau a wneir gan y fferyllydd wrth ddosbarthu cyn rhoi'r eitemau a ragnodwyd i unigolyn. Cyflwynwyd y gwiriadau wrth ddosbarthu yng Nghymru ar 1 Ebrill 1999 (paragraff 6) fel modd o leihau'r elfen o incwm a gollir yn hytrach na'i dileu. Maent yn gofyn i unigolion gyflwyno tystiolaeth i'r fferyllydd sy'n cadarnhau eu bod wedi eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau. Nod y gwiriadau yw sicrhau mai dim ond y rhai sydd â'r hawl i gael presgripsiynau wedi eu dosbarthu yn rhad ac am ddim sy'n cael y budd hwn mewn gwirionedd. Seilir y trefniant hwn ar y rhagdybiaeth bod unigolion yn gyfrifol am onestrwydd a chywirdeb eu ceisiadau am gael eu heithrio ac felly sicrhau'r amhariad lleiaf posibl ar y berthynas rhwng y claf a'r fferyllydd. Roedd y trefniadau newydd hefyd yn cydnabod bod dosbarthu meddyginiaeth yn rhan annatod o waith fferyllydd ac ni ddylid ei atal oherwydd anallu unigolyn i brofi ei fod wedi ei eithrio.

**11** Mae'r gwiriadau wrth ddosbarthu'n berthnasol i bob categori o eithriad ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig ag oedran (categorïau A i C yn Ffigwr 1). Y nod yw ymestyn y gwiriadau hyn i gwmpasu eithriadau yn gysylltiedig ag oedran unwaith y caiff y systemau cyfrifiadurol a ddefnyddir mewn meddygfeydd eu diweddaru, fel y bydd oedran neu ddyddiad geni'r claf wedi'i argraffu'n awtomatig pan fydd meddyg teulu'n cwblhau ffurflen bresgripsiwn.

**12** Lle y mae unigolyn yn hawlio, ond nid yw'n gallu cyflwyno tystiolaeth i'r fferyllydd sy'n cadarnhau ei fod wedi ei eithrio, gall y fferyllydd ddosbarthu'r eitemau a ragnodwyd yn ddi-dâl o hyd. Yn yr achosion hyn, dylai'r unigolyn (neu rywun sy'n cynrychioli'r person hwnnw) gwblhau tudalen gefn y ffurflen bresgripsiwn a'i llofnodi (Ffigwr 1) ac mae'n rhaid i'r fferyllydd roi nodyn ar y ffurflen er mwyn dangos na welwyd y dystiolaeth sy'n cadarnhau bod y claf yn gymwys i gael presgripsiynau am ddim. Ar wahân i'r gwiriadau wrth ddosbarthu nid oes unrhyw reolaethau systematig yn eu lle i wirio ar hyn o bryd, er enghraifft, a oedd hawl wirioneddol gan unigolyn nad oedd yn gallu cyflwyno tystiolaeth ategol i gael ei eithrio. Fodd bynnag, mae'r Awdurdodau Iechyd yn gwneud rhai gwiriadau dilynol er mwyn cadarnhau bod hawl briodol gan unigolion sy'n dal Tystysgrifau Awdurdodau Iechyd i gael eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau.

## Profi'r fframwaith rheoli

**13** Archwiliwyd y fframwaith rheoli ar gyfer penderfynu ar eithriadau rhag talu taliadau presgripsiynau gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Roedd hefyd yn ceisio amcangyfrif yr effaith bosibl ar y refeniw a gynhyrchir gan daliadau presgripsiynau o ganlyniad i unrhyw reolaethau gwan neu aneffeithiol.

**14** Gan weithio'n agos gyda swyddogion y Cynulliad, seiliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ei archwiliad ar sampl o 1,996 o ffurflenni presgripsiwn a ddetholwyd o'r 1.75 miliwn o bresgripsiynau a brisiwyd gan Health Solutions Wales ym mis Medi 1999. Rhoddodd y sampl sail ystadegol ddilys i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru lunio amcangyfrifon o swm y refeniw oddi wrth daliadau presgripsiynau a gollwyd o bosibl am fod unigolion yn cael presgripsiynau wedi eu dosbarthu yn rhad ac am ddim yn anaddas. Mae'r prif bwyntiau i'w nodi ynglŷn â'r ymarfer hwn fel a ganlyn:

- Roedd y sampl yn cwmpasu pob un o'r pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru - gan dynnu samplau mwy ar gyfer yr awdurdodau mwy. Nid oes modd sicrhau bod pob fferyllfa yng Nghymru wedi ei chynrychioli yn y sampl. Fodd bynnag cynhwyswyd digon o fferyllfeydd gwahanol er mwyn rhoi sail eithaf dibynadwy i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru amcangyfrif swm y refeniw oddi wrth daliadau presgripsiynau a gollwyd.

- Tynnwyd y sampl oddi wrth bresgripsiynau a brisiwyd ym mis Medi 1999. Y rheswm dros hyn oedd bod Health Solutions Wales yn cael anawsterau gweithredu ar adeg yr archwiliad hwn ac mai mis Medi 1999 oedd y mis olaf pan brisiwyd pob presgripsiwn yn llawn. Mae paragraffau 60 i 65 yn nodi'r cefndir i'r sefyllfa hon.

- Ni chynhwyswyd presgripsiynau a ddosbarthwyd gan feddygon sy'n dosbarthu yn y sampl. Roedd y rhain yn cyfrif am lai na saith y cant o'r presgripsiynau a brisiwyd gan Health Solutions Wales ym 1998-99. Awgrymodd dadansoddiad cyntaf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod unrhyw gasgliadau cyffredinol ac argymhellion a wnaed mewn perthynas â fferyllwyr yr un mor berthnasol i feddygon sy'n dosbarthu.

- Dadansoddodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y sampl yn gyntaf er mwyn nodi'r presgripsiynau lle y talwyd tâl a'r presgripsiynau lle na chodwyd ffi. Yna dadansoddodd y rheini a ddosbarthwyd am ddim yn ôl categori'r eithriad. Dengys Ffigur 3 ganlyniadau'r dadansoddiad cychwynnol hwn.

- Cyd-drafododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn agos gyda'r pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru, yr Asiantaeth Budd-daliadau, yr Asiantaeth Pensiynau Rhyfel a'r Awdurdod Prisio Presgripsiynau yn Lloegr er mwyn cael rhyw amcan o nifer yr unigolion a gafodd bresgripsiynau am ddim a oedd yn gymwys mewn gwirionedd i gael eu heithrio. Ar gyfer unigolion ymhob categori eithrio, gwiriodd yr awdurdod neu'r asiantaeth berthnasol eu cofnodion er mwyn cadarnhau a oedd yr unigolion hyn yn dal y dystysgrif eithrio berthnasol neu a oeddent yn cael budd-dâl nawdd cymdeithasol a oedd yn rhoi'r hawl iddynt gael eu heithrio. Dibynnodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ganlyniadau'r gwiriadau a wnaed mewn cydweithrediad â'r sefydliadau hyn er mwyn cael rhyw amcan o nifer yr unigolion yn ei sampl a oedd wedi eu heithrio a'r nifer nad oeddent wedi eu heithrio.

- Wrth gyflawni'r ymarfer hwn, ni cheisiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gadarnhau a oedd gan yr unigolion hynny yn ei sampl a oedd yn cael budd-dâl nawdd cymdeithasol neu'n dal tystysgrif eithrio hawl briodol i'r budd neu'r dystysgrif dan sylw.

**Ffigwr 3: Dadansoddiad cychwynnol o'r presgripsiynau yn sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru**

| Categori (fel y nodir ar dudalen gefn y ffurflen bresgripsiwn)[1] | Nifer y ffurflenni presgripsiwn | Canran y ffurflenni presgripsiwn | Nifer gyfartalog o eitemau fesul ffurflen bresgripsiwn |
|---|---|---|---|
| A - o dan 16 oed | 175 | 9 | 1.35 |
| B - 16, 17 neu 18 oed ac mewn addysg amser llawn | 26 | 1 | 1.19 |
| C - 60 oed neu'n hŷn | 1027 | 52 | 2.11 |
| D - tystysgrif eithrio mamolaeth | 22 | 1 | 1.42 |
| E - tystysgrif eithrio meddygol | 122 | 6 | 2.13 |
| F - tystysgrif rhagdalu presgripsiwn | 103 | 5 | 2.34 |
| G - Tystysgrif eithrio Pensiwn Rhyfel | 5 | Ddim yn berthnasol | 1.80 |
| L - a enwir ar dystysgrif taliadau HC2 gyfredol | 24 | 1 | 1.67 |
| H - Cymhorthdal Incwm | 194 | 10 | 1.93 |
| K - lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm | 20 | 1 | 1.50 |
| I - credyd teulu | 41 | 2 | 1.66 |
| J - lwfans gweithio i'r Anabl | 15 | 1 | 2.00 |
| X - dulliau atal cenhedlu am ddim | 24 | 1 | 1.04 |
| Sgriptiau lle na nodwyd categori | 22 | 1 | 1.72 |
| Talwyd amdanynt wrth y cownter | 176 | 9 | 1.27 |
| **Cyfanswm** | **1996** | **100** | **1.90** |

(1) Gweler Ffigur 1

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

- Allosododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y canlyniadau a gynhyrchwyd gan ei sampl er mwyn amcangyfrif yr effaith bosibl ar swm y refeniw a gynhyrchir gan daliadau presgripsiynau ar gyfer flwyddyn gron.

- Ar ôl cwblhau'r broses hon, aeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ati i nodi'r prif wendidau yn y fframwaith rheoli cyffredinol.

## Canlyniadau'r dadansoddiad

**15** Fel y dengys Ffigur 3, talwyd taliadau ar gyfer 9 y cant o'r ffurflenni presgripsiwn yn sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynyddu i bymtheg y cant pan ystyrir tystysgrifau rhagdalu presgripsiynau.[1]

**16** O ran y gweddill, y nifer uchaf o eithriadau rhag taliadau presgripsiynau oedd yn gysylltiedig ag oedran.Roedd y rheiny yn y categori 60 oed neu hŷn yn cyfrif am ychydig dros hanner y sampl. Yn dilyn y rhain roedd eithriadau oedd yn gysylltiedig â budd-daliadau nawdd cymdeithasol a'r rheiny oedd yn gysylltiedig â Thystysgrifau a roddwyd gan yr Awdurdodau Iechyd.

**17** Mae Ffigwr 4 yn crynhoi canlyniadau'r gwiriadau a wnaed mewn cydweithrediad â'r pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru, yr Asiantaeth Budd-daliadau, yr Asiantaeth Pensiynau Rhyfel a'r Awdurdod Prisio Presgripsiynau ar y 1,777 o achosion yn y sampl lle roedd hawl i eithriad. Cadarnhaodd y gwiriadau hyn fod hawl ddilys i eithriad mewn 86 y cant o'r achosion hyn. Fodd bynnag mewn 9 y cant o achosion, nid oedd hawl i eithriad, yn ôl y dystiolaeth olwg gyntaf. Yn ogystal, rhoddwyd 5 y cant o eithriadau eraill yn y categori 'ansicr' yn bennaf am na ellid darllen y ffurflenni presgripsiwn perthnasol neu am na ellid dod o hyd i'r person dan sylw yng nghofnodion y sefydliad perthnasol. Fel canlyniad nid oedd modd cadarnhau, yn yr achosion 'ansicr' hyn, a oedd unigolyn wedi ei eithrio rhag talu taliadau presgripsiynau neu beidio.

**18** Wrth gyflawni'r ymarfer hwn, ceisiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gyfrifo cymaint â phosibl ar gyfer yr unigolion a oedd wedi nodi ar gam eu bod wedi eu heithrio o dan un categori er eu bod yn gwbl gymwys o dan un arall mewn gwirionedd. Roedd modd gwneud hyn rhwng rhai categorïau eithrio ond nid rhwng pob un ohonynt. Mae Ffigur 4 yn adlewyrchu canlyniadau'r gwaith hwn.

**19** O ystyried y pwynt hwn a chan ganiatáu ar gyfer amrywiadau samplu ac ansicrwydd ystadegol mewn ymarfer o'r fath, amcangyfrifodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod tua £15 miliwn o incwm yn cael ei golli o bosibl bob blwyddyn o ganlyniad i ganiatáu i unigolion nad oeddynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol osgoi talu

**Ffigwr 4: Crynodeb o'r gwiriadau ar yr hawl i eithriad rhag taliadau presgripsiwn**

| Math o eithriad | Nifer yn y Sampl[1] | Canran yn ddilys | Canran annilys | Canran yn ansicr |
|---|---|---|---|---|
| Yn gysylltiedig ag oedran | 1,233 | 95 | 2 | 3 |
| Tystysgrifau Awdurdodau Iechyd | 245 | 78 | 18 | 4 |
| Yn ymwneud â Budd-daliadau | 270 | 58 | 30 | 12 |
| Eraill | 29 | 58 | 21 | 21 |
| **Cyfanswm** | **1,777** | **86** | **9** | **5** |

(1) mae'r rhifau yn y colofnau 'nifer yn y sampl'yn wahanol i'r rhai a nodwyd yn Ffigur 3 gan fod y tabl hwn yn ystyried yr achosion hynny a symudodd categorïau eithrio o ganlyniad i'r gwiriadau ar hawl i eithriad

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1 Rhoddir tystysgrifau rhagdalu presgripsiwn gan Awdurdodau Iechyd. Gellir eu prynu am gyfnod o bedwar mis am £31.40 neu am ddeuddeg mis am £86.20. Mae tystysgrifau rhagdalu yn fwy darbodol i bobl nad ydynt wedi eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau ac sydd angen mwy na phum eitem a ragnodir arnynt mewn cyfnod o bedwar mis neu dros 14 eitem mewn cyfnod o 12 mis.

presgripsiynau. Er mwyn cyrraedd y cyfanswm hwn, ystyriodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd nifer yr eitemau a ddosbarthwyd yn rhad ac am ddim yng Nghymru ym 1998-1999 (tua 37 miliwn) a'r ffi bresennol ar gyfer taliadau presgripsiynau (£6 yr eitem).

**20** Mae nifer yr achosion yn sampl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sydd yn y categori 'ansicr' o ran yr hawl i eithriad yn awgrymu y gall swm yr incwm posibl a gollwyd fod yn uwch o bosibl. Er enghraifft, pe bai pob achos ansicr yn y sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ddim yn addas i'w heithrio rhag taliadau presgripsiynau, yna byddai'r incwm amcangyfrifedig a gollwyd yn cynyddu i tua £30 miliwn. Mewn gwirionedd nid yw'r achosion hyn yn debygol o gael cymaint o effaith. Er enghraifft, pe bai'r achosion ansicr hyn yn adlewyrchu'r sampl gyffredinol yn deg fyddai naw y cant ohonynt ddim yn addas i'w heithrio. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'r amcangyfrif a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o ran yr incwm a gollir o ganlyniad yn cynyddu i tua £16 miliwn y flwyddyn.

**21** Mae'r rhan ganlynol o'r adroddiad hwn yn nodi, ar gyfer pob categori eithrio, amcangyfrifon o swm posibl y refeniw a gollwyd o ganlyniad i ganiatáu i unigolion nad oeddent yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer y categori hwnnw gael eu heithrio. Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys unrhyw achosion ansicr ac maent ond yn seiliedig ar yr achosion hynny lle'r oedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn fodlon nad oedd unrhyw hawl i eithriad ar yr olwg gyntaf. Oherwydd maint yr is-samplau dan sylw, mae'r amcangyfrifon ar gyfer categorïau unigol yn llai manwl gywir na'r amcangyfrif ar gyfer y sampl gyfan. Eto i gyd maent yn rhoi arwydd defnyddiol o'r symiau cymharol o dan sylw.

## Eithriadau sy'n gysylltiedig ag Oedran

**22** Fel y nodwyd eisoes (paragraff11), pan gyflwynwyd gwiriadau wrth ddosbarthu ym mis Ebrill 1999 yng Nghymru nid oeddent yn cynnwys eithriadau yn gysylltiedig ag oedran ac, hyd yn hyn, ni chyflwynwyd unrhyw wiriadau am eithriadau yn gysylltiedig ag oedran. Y bwriad yw cyflwyno'r gwiriadau hyn yn nes ymlaen pan fydd pob system gyfrifiadurol a ddefnyddir mewn meddygfa wedi ei diweddaru fel y gall oedran neu ddyddiad geni unigolyn gael ei argraffu'n awtomatig pan fydd meddyg teulu'n cwblhau'r ffurflen bresgripsiwn. Cadarnhaodd y Cynulliad ei fod yn gweithio ar hyn o bryd i gysylltu pob meddyg teulu â systemau TG cyffredin a fydd yn galluogi i set safonol o fanylion, gan gynnwys oedran neu ddyddiad geni gael eu hargraffu ar bob ffurflen bresgripsiwn.

**23** O ystyried y cyd-destun hwn, dadansoddodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ei sampl o ffurflenni presgripsiwn er mwyn cadarnhau pa nifer a oedd wedi nodi oedran neu ddyddiad geni'r claf. Mae Ffigwr 5 yn nodi canlyniadau'r ymarfer hwn gan ddangos nad oedd hanner y sampl wedi nodi oedran neu ddyddiad geni. Argraffwyd a chynhyrchwyd tri chwarter o'r sampl gan systemau TG meddygon teulu. O blith y rhain, roedd 43 y cant a gynhyrchwyd heb gynnwys manylion am oedran neu ddyddiad geni. Roedd y ffurflenni presgripsiwn eraill yn y

**Ffigur 5: Amlder achosion o gynnwys dyddiad geni ar ffurflenni presgripsiwn**

| Math o Ffurflen Bresgripsiwn | Nifer y Ffurflenni Presgripsiwn | Canran Y sampl | Canran gyda dyddiad geni | Canran heb ddyddia geni |
|---|---|---|---|---|
| Wedi eu hargraffu | 1525 | 76 | 57 | 43 |
| Wedi eu hysgrifennu â llaw | 471 | 24 | 30 | 70 |
| **Cyfanswm** | **1996** | **100** | **50** | **50** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

sampl wedi eu hysgrifennu â llaw ac nid oedd 70 y cant ohonynt wedi nodi oedran neu ddyddiad geni. Dengys y canlyniadau bod angen gwneud cynnydd o hyd cyn y gall y Cynulliad ddibynnu ar y wybodaeth ar y ffurflen bresgripsiwn i roi cadarnhad ynglŷn â hawl i eithriad yn gysylltiedig ag oedran.

**24** Yn yr achosion hynny lle na thalwyd tâl presgripsiwn oherwydd eithriad yn gysylltiedig ag oedran, dibynnodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar yr oedran neu ddyddiad geni a argraffwyd ar dudalen flaen y ffurflen bresgripsiwn fel tystiolaeth o hawl. Yn yr achosion hynny lle roedd eithriad yn gysylltiedig ag oedran ond nad oedd y ffurflen bresgripsiwn yn cynnwys dyddiad geni, cadarnhaodd yr Awdurdod Iechyd perthnasol gymhwyster i eithriad. Ar y sail hon, roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu cadarnhau bod 95 y cant o'r eithriadau o safbwynt oed yn bodloni'r meini prawf (Ffigwr 6). Roedd eithriadau annilys yn cyfrif am ddau y cant. Roedd y tri y cant olaf yn cynnwys achosion naill ai lle nad oedd gan yr Awdurdod Iechyd unrhyw gofnod o'r claf neu lle na ellid darllen y ffurflen bresgripsiwn. Cofnodwyd y rhain yn y golofn 'Dim cofnod' yn Ffigwr 6.

**25** O ystyried nifer gymharol yr eithriadau yn gysylltiedig ag oedran, mae canlyniadau'r dadansoddiad a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn awgrymu bod amlder achosion ceisiadau ar sail analluedd yn isel. Eto i gyd, oherwydd nifer yr achosion dan sylw, mae'r incwm a gollir o bosibl o'r achosion analluedd hyn yn sylweddol. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif y gallai tua £3 miliwn o incwm gael ei golli o bosibl pe ceid y canlyniadau hyn ar draws Cymru dros flwyddyn gron. Gallai'r ffigur hwn fod yn uwch os bydd unrhyw achosion o unigolion yn cael eu heithrio rhag talu taliadau presgripsiwn er nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol ymhlith yr achosion a nodir yn 'dim cofnod'.

**26** Nododd Swyddfa Genedlaethol Archwilio Cymru fod 10 o'r ffurflenni presgripsiwn cyfatebol, o blith y 26 achos yn gysylltiedig ag oedran ac analluedd yn ei sampl, yn cynnwys dyddiad geni. Ar yr olwg gyntaf, awgryma hyn y gallai'r achosion annilys hyn fod wedi eu nodi pan ddosbarthwyd yr eitemau i'w rhagnodi er nad yw'r gwiriadau wrth ddosbarthu yn berthnasol i eithriadau yn gysylltiedig ag oedran ar hyn o bryd. Dengys hyn yn ei dro y gellir cynhyrchu cymaint â £1.2 miliwn y flwyddyn mewn incwm ychwanegol oddi wrth daliadau

**Ffigwr 6: Dadansoddiad o Eithriadau yn gysylltiedig ag oedran**

| Categori | Nifer y ffurflenni presgripsiwn | Eithriadau Dilys | Eithriadau Annilys | Dim Cofnod |
|---|---|---|---|---|
| A ~ Plant o dan 16 | 179 | 168 | 4 | 7 |
| B ~ Pobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg amser llawn | 26 | 15 | 4 | 7 |
| C ~ Oedolion 60 oed a hŷn | 1028 | 982 | 18 | 28 |
| **Cyfanswm yr eithriadau yn gysylltiedig ag oedran** | **1233** | **1165** | **26** | **42** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

presgripsiynau, pe bai mwy o sylw yn cael ei roi wrth wirio'r dyddiad geni pan y'i cynhwysir ar y ffurflen bresgripsiwn a lle yr hawlir eithriad yn gysylltiedig ag oedran.

## Tystysgrifau Awdurdodau Iechyd

**27** Dosberthir amryw o dystysgrifau gan Awdurdodau Iechyd sy'n rhoi'r hawl i unigolion gael presgripsiynau am ddim. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Iechyd hefyd yn rhoi tystysgrifau rhagdalu. Mae'r Awdurdodau Iechyd yn cadw cofnod o'r holl dystysgrifau a roddwyd ganddynt.

**28** Un o'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yn sgîl y gwiriadau gan y pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru oedd nad oedd hawl gan rai unigolion hawlio un math o eithriad yn gysylltiedig â thystysgrif Awdurdod Iechyd i gael eu heithrio o dan y categori hwnnw ond bod hawl ganddynt i gael eu heithrio o dan gategori gwahanol. Er enghraifft, nododd dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r sampl fod tri o ddynion yn hawlio eithriad am yr ymddengys eu bod yn dal tystysgrif eithrio mamolaeth. Cadarnhaodd gwiriadau dilynol gan yr Awdurdodau Iechyd perthnasol fod y tri hyn yn gymwys i gael presgripsiynau am ddim o dan gategori eithrio arall.

**29** O ganlyniad i ystyried y categorïau eithrio cysylltiedig hyn ceisiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mewn cydweithrediad â'r pum Awdurdod Iechyd nodi achosion lle roedd unigolion wedi hawlio'r math anghywir o eithriad ond bod hawl ganddynt o hyd i gael presgripsiynau am ddim o dan gategori arall. Mae'r canfyddiadau a nodir isod yn ystyried y gwaith hwn.

### Tystysgrifau Eithrio Mamolaeth

**30** Mae Tystysgrif Eithrio Mamolaeth yn rhoi'r hawl i'w deiliad gael presgripsiynau am ddim yn ystod beichiogrwydd ac am flwyddyn ar ôl genedigaeth plentyn. Pan roddir Tystysgrif Eithrio Mamolaeth, mae'r Awdurdod Iechyd yn cadw cofnod o'r manylion perthnasol. Yn achos 22 o'r achosion yn sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, cadarnhaodd yr Awdurdodau Iechyd nad oedd hawl gan bedwar unigolyn i gael presgripsiynau am ddim o dan y categori eithrio hwn ac o dan unrhyw eithriad arall sy'n ymwneud â'r awdurdodau iechyd. Nid oedd modd gwirio un o'r achosion yn y categori hwn am na ellid darllen y ffurflen bresgripsiwn.

**31** Yn seiliedig ar y canlyniadau hyn, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod tua £500,000 o incwm yn cael ei golli bob blwyddyn o bosibl oddi wrth daliadau presgripsiynau. Nododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y gallai'r swm gwirioneddol fod yn is am ei bod ar ddeall bod achosion hwyrach lle nad yw unigolion wedi gwneud cais am Dystysgrif Eithrio Mamolaeth ond y caiff unrhyw bresgripsiynau eu dosbarthu am ddim am eu bod yn amlwg yn feichiog.

### Tystysgrifau Eithrio Meddygol

**32** Mae hawl gan unigolion â chyflyrau meddygol penodol i gael presgripsiynau am ddim ar yr amod bod eu Hawdurdod Iechyd wedi rhoi'r Dystysgrif Eithrio Feddygol berthnasol iddynt. Mae'r Awdurdodau Iechyd yn cadw cofnod o'r manylion perthnasol. Mae'r meini prawf sy'n dangos eu bod yn gymwys i gael eu heithrio yn yr adran hon yn gymhleth iawn a gallent fod yn ffactor cyfrannol at bresgripsiynau yn cael eu dosbarthu'n anaddas yn rhad ac am ddim. I ddangos hyn ,mae Atodiad 1 yn amlinellu rhestr lawn o gyflyrau meddygol arbennig sy'n caniatáu i unigolion gael presgripsiynau yn rhad ac am ddim.

**33** Ymhlith y sampl o ffurflenni presgripsiwn a archwiliwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru roedd 122 o achosion (6 y cant) lle roedd unigolion yn hawlio presgripsiynau am ddim ar y sail eu bod yn dal Tystysgrif Eithrio Feddygol. Darganfu'r Awdurdodau Iechyd nad oedd Tystysgrif Eithrio Feddygol wedi ei rhoi mewn 20 y cant o'r achosion hyn yn ôl eu cofnodion. Yn ogystal, mewn 4 y cant arall o'r achosion hyn nid oedd gan yr Awdurdod Iechyd gofnod o'r unigolyn dan sylw neu nid oedd modd darllen y ffurflen bresgripsiwn. Yn seiliedig ar y canlyniadau hyn, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod tua £3 miliwn o incwm yn debygol o gael ei golli. Unwaith eto gallai'r swm gwirioneddol dan sylw fod yn is, o ystyried bod achosion hwyrach lle mae unigolion yn dioddef o un o'r cyflyrau sydd yn rhoi'r hawl iddynt gael Tystysgrif Eithrio Feddygol er nad ydynt wedi gwneud cais am Dystysgrif.

**34** Yn y cyd-destun hwn, nododd yr adroddiad a gomisiynwyd gan yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gymreig ym 1997 (paragraff 45) hefyd fod eithriadau meddygol yn achosi drwgdeimlad yn y gymuned, am fod rhai cleifion yn cael eu heithrio rhag talu am bob presgripsiwn er nad ydynt yn gysylltiedig â'u cyflwr, tra bod eraill â chyflyrau difrifol, cronig yn gorfod talu am bob un o'u heitemau. Nid yw'r eithriadau hyn bob amser ar sail y gallu i dalu chwaith. Nododd yr adroddiad hefyd fod y drwgdeimlad hwn oherwydd bod yr annhegwch tybiedig yn creu awyrgylch lle mae rhai unigolion o'r farn ei bod yn dderbyniol yn foesol i efadu'r taliadau os nad ydynt yn gallu ymddiried yn y system yn y lle cyntaf'.

## Tystysgrifau Rhagdalu

**35** Mae pobl sydd ag angen presgripsiynau rheolaidd arnynt ac sydd yn talu taliadau presgripsiynau fel arfer yn gallu arbed arian trwy brynu Tystysgrif Rhagdalu, y cyfeirir ati weithiau fel 'tocyn tymor'. Dim ond yr Awdurdodau Iechyd sy'n gallu rhoi Tystysgrifau Rhagdalu. Gellir eu prynu am gyfnod o bedwar mis, am £31.40 neu am gyfnod o ddeuddeg mis am £86.20. Maent yn fwy darbodol i bobl sydd angen mwy na 5 eitem mewn cyfnod o bedwar mis neu fwy na 14 eitem mewn cyfnod o 12 mis. Mae pob Awdurdod Iechyd yn cadw cofnod o'r Tystysgrifau Rhagdalu a roddwyd ganddynt.

**36** Darganfu'r pum Awdurdod Iechyd nad oedd 15 y cant yn sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a honnodd fod ganddynt Dystysgrif Rhagdalu wedi cael Tystysgrif mewn gwirionedd. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif y gallai hynny olygu colli tua £2 filiwn o incwm y flwyddyn o bosibl. Yn ogystal ni allai'r Awdurdodau Iechyd ddod o hyd i gofnodion am 5 y cant arall yn y sampl sydd yn y grŵp eithrio hwn gan awgrymu y gallai'r incwm posibl a gollir fod yn uwch.

## Eithriadau sy'n ymwneud â Budd-daliadau

**37** Roedd unigolion neu eu partneriaid a oedd yn gymwys i gael eu heithrio am eu bod yn hawlio'r budd-dâl Nawdd Cymdeithasol perthnasol yn cyfrif ar gyfer tua 14 y cant o'r holl bresgripsiynau yn sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

**38** Mae Ffigwr 7 yn crynhoi canlyniadau'r gwiriadau ar gymhwyster a wnaed mewn cydweithrediad â'r Asiantaeth Budd-daliadau. Dengys y rhain fod y budd-dâl mewn 58 y cant o'r achosion lle yr hawliwyd eithriad ar sail budd-dâl nawdd cymdeithasol cymwys yn cael ei dalu mewn gwirionedd. Yn y 42 y cant arall o'r achosion nid oedd hawl gan yr unigolion i gael eu heithrio ar yr olwg gyntaf neu fod yr hawl honno'n amheus. Yn seiliedig ar y canlyniadau hyn, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn colli tua £10 miliwn o incwm bob blwyddyn o bosibl.

**39** Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn atgyfnerthu'r casgliad a wnaed yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gymreig ym 1997 (paragraff 5) fod llawer o bobl o'r farn, a hynny'n ddiffuant, fod hawl ganddynt i gael

presgripsiynau am ddim am eu bod yn cael budd-daliadau nawdd cymdeithasol nad ydynt yn rhoi hawl i eithriad.  Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu y byddai'r eithriadau hyn yn cael eu lleihau i'r eithaf pe bai'r gwiriadau wrth ddosbarthu yn cael eu cwblhau'n drylwyr.


## Cymhorthdal Incwm

**40** Roedd y sampl o ffurflenni presgripsiwn a archwiliwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynnwys 190 o achosion (yn cyfateb i 10 y cant o'r sampl) lle roedd yr unigolion yn hawlio eithriad rhag taliadau presgripsiynau am eu bod yn cael Cymhorthdal Incwm. Cadarnhaodd yr Asiantaeth Budd-daliadau fod Cymhorthdal Incwm yn cael ei dalu mewn 116 o'r achosion hyn (sef 60 y cant). O blith y 74 o achosion eraill, canfu'r Asiantaeth Budd-daliadau nad oedd Cymhorthdal Incwm yn cael ei dalu mewn dau o bob tri achos (51 o achosion) ym mis Medi 1999. Yn yr achosion eraill (23 achos), nid oedd gan yr Asiantaeth Budd-daliadau unrhyw gofnodion am yr unigolion dan sylw. O'r 51 o achosion lle y darganfu'r Asiantaeth Budd-daliadau nad oedd Cymhorthdal Incwm yn cael ei dalu, roedd 22 yn cael budd-daliadau eraill. Ond nid oedd y budd-daliadau hyn, fodd bynnag, yn golygu bod y rhai a oedd yn eu cael yn gymwys i gael presgripsiynau am ddim. Amcangyfrifodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y gallai tua £6.3 miliwn o incwm gael ei golli bob blwyddyn o bosibl oherwydd unigolion sy'n cael presgripsiynau am ddim pan nad oedd hawl amlwg ganddynt o dan y categori eithrio hwn.

## Credyd Teulu

**41** O gymharu â Chymorth Incwm, roedd y nifer yn hawlio presgripsiynau am ddim ar y sail eu bod yn cael Credyd Teulu yn llawer is - dim ond 47 o achosion o'r fath oedd yn sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Cadarnhaodd yr Asiantaeth Budd-daliadau fod Credyd Teulu yn cael ei dalu mewn 24 o'r achosion hyn, sef tua hanner yr achosion yn y categori. Cadarnhaodd yr Asiantaeth Budd-daliadau nad oedd Credyd Teulu yn cael ei dalu yn y 13 achos arall. O ran y 10 achos arall nid oedd gan yr Asiantaeth Budd-daliadau unrhyw gofnod am yr unigolion dan sylw. Yn seiliedig ar y canlyniadau hyn, amcangyfrifodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y gallai tua £1.5 miliwn o incwm gael ei golli bob blwyddyn o bosibl.

**Ffigwr 7: Crynodeb o'r Canlyniadau ar gyfer Eithriadau sy'n gysylltiedig â Budd-dâl**



**42** Yn y cyd-destun hwn, nododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod y Credyd Teulu wedi dod i ben ym mis Ebrill 2000. Cyflwynwyd y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio yn ei le sydd yn rhoi eithriad rhag taliadau presgripsiwn.

## Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm

**43** Roedd y categori hwn yn cyfrif ar gyfer un y cant o'r sampl gyfan. O'r achosion hyn, sef cyfanswm o ddau ar hugain, rhoddodd yr Asiantaeth Budd-daliadau sicrwydd cadarnhaol am bymtheg ohonynt. Roedd pedwar o'r saith achos arall yn cael budd-daliadau eraill ond nid oedd y rheiny yn caniatau i'r derbynwyr gael presgripsiynau am ddim. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif y gallai cymaint â £860,000 o incwm arfaethedig gael ei golli yn y categori hwn bob blwyddyn o bosibl.

## Lwfans Gweithio i'r Anabl

**44** Awgrymodd y gwiriadau a wnaed mewn cydweithrediad â'r Asiantaeth Budd-daliadau fod rhai unigolion a hawliodd bresgripsiynau am ddim gan ddweud eu bod yn cael Lwfans Gweithio i'r Anabl naill ai'n cael Lwfans Analluedd neu Lwfans Byw i'r Anabl. Nid yw'r naill lwfans na'r llall yn rhoi'r hawl i eithriad rhag taliadau prescripsiwn. Cadarnhaodd yr Asiantaeth Budd-daliadau hyn, ymhlith deg o'r pymtheg achos yn y categori eithriad hwn. Roedd hawl gan y gweddill i gael eu heithrio am eu bod yn cael Cymhorthdal Incwm. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif y gallai cymaint â £1.4 miliwn o incwm gael ei golli bob blwyddyn, gan ragamcanu ar draws yr holl bresgripsiynau, oherwydd y ceisiadau annilys.

**45** Nododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i'r Lwfans Gweithio i'r Anabl ddod i ben ym mis Ebrill 2000. Cyflwynwyd Credyd Treth i Bobl Anabl yn ei le sydd ag eithriad rhag taliadau presgripsiwn.

# Categorïau eithrio eraill

**46** Archwiliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd yr achosion yn ei sampl lle roedd unigolion yn hawlio eithriad rhag talu taliadau presgripsiynau o dan amryw o gategorïau llai.

## Pensiynwyr Rhyfel

**47** Mae hawl gan Bensiynwyr Rhyfel i gael presgripsiynau am ddim ar yr amod bod yr eitemau a ragnodwyd am y cyflwr y maent yn derbyn eu Pensiwn ar ei gyfer. Y grŵp hwn oedd y categori eithrio lleiaf, gyda 5 ffurflen bresgripsiwn yn unig yn y sampl. Cadarnhaodd yr Asiantaeth Pensiynau Rhyfel fod hawl gan dri o'r pump achos hyn. Yn y ddau achos arall, roedd yr unigolion dan sylw yn cael lwfansau eraill ond nid oedd y rhain yn eu heithrio rhag talu taliadau presgripsiynau. Yn amlwg mae ansicrwydd ystadegol mwy wrth ymdrin â niferoedd mor fach. Fodd bynnag gan ragdybio bod y sampl yn cynrychioli cyfanswm y presgripsiynau a ddosberthir bob blwyddyn i unigolion sy'n hawlio eithriad o dan y categori hwn yna gallai'r incwm a gollir fod cymaint â £250,000 yn ystod y flwyddyn.

## Cynllun Incwm Isel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**48** Mae unigolion nad ydynt wedi eu heithrio rhag talu am bresgripsiynau o dan unrhyw gategorïau eraill ond sydd ar incwm isel yn gallu gwneud cais am gael eu heithrio o dan Gynllun Incwm Isel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Awdurdod Prisio Presgripsiynau Lloegr yn Newcastle sy'n gweinyddu'r cynllun hwn. Mae'n rhoi cymorth i dalu am wahanol wasanaethau gofal iechyd sylfaenol. Rhoddir naill ai dystysgrif HC2 am gymorth llawn neu dystysgrif HC3 am gymorth cyfyngedig i'r ceiswyr llwyddiannus. Mae hawl gan unigolion sy'n dal tystysgrif HC2 i gael presgripsiynau am ddim. Nid yw tystysgrif HC3 yn rhoi'r hawl i'r unigolyn dan sylw gael ei eithrio rhag talu taliadau presgripsiynau.

**49** Roedd ychydig dros 1 y cant (24 o achosion ) o'r sampl wedi hawlio presgripsiynau am ddim o dan y categori eithrio hwn. Roedd yr Awdurdod Prisio Presgripsiynau yn gallu cadarnhau o blith y 24 o'r achosion hyn:

- bod 14 yn dal tystysgrif HC2 ac felly yn cael eu heithrio rhag talu taliadau presgripsiynau;
- bod tystysgrifau HC3 wedi eu rhoi mewn dau o'r achosion ac felly nad oedd yr unigolion dan sylw yn gymwys i gael eithriad;
- bod tystysgrif HC2 wedi ei rhoi mewn dau achos arall ond nid oeddent yn cwmpasu cyfnod y sampl; a
- na ellid canfod cofnod o dystysgrifau yn y chwe achos arall.

**50** Ar sail y canlyniadau hyn mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru'n amcangyfrif mai tua £500,000 yw'r incwm posibl a gollir o dan y categori hwn.

### Dulliau Atal Cenhedlu Am Ddim

**51** Rhoddir dulliau atal cenhedlu am ddim, waeth a oes hawl gan yr unigolyn gael presgripsiynau am ddim ai peidio. Dim ond un y cant yw'r categori hwn yn y sampl. Ar ôl archwilio'r presgripsiynau yn y categori hwn cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mai dulliau atal cenhedlu yn unig a ddosbarthwyd.

## Achosion lle na nodwyd unrhyw Gategori Eithrio

**52** Mewn achosion lle mae'r claf neu ei gynrychiolydd heb nodi unrhyw gategori eithrio yn Rhan 1 o'r ffurflen bresgripsiwn ac wedi llofnodi Rhan 3 o'r ffurflen (Ffigur 1), mae Health Solutions Wales yn eu cyfrif fel petaent yn bresgripsiynau wedi eu dosbarthu am ddim. Felly ni ddidynnir ffi presgripsiwn o'r taliad i'r fferyllydd. Fodd bynnag, mewn achosion lle na lofnodir Rhan 3 dylid didynnu ffi yn y broses brisio. Y rhagdybiaeth am hyn yw bod y fferyllydd wedi cael tâl presgripsiwn wrth ddosbarthu.

**53** Bu 22 o achosion yn sampl Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru lle nad oedd unrhyw gategori eithrio wedi ei nodi. Arolygodd Health Solutions Wales yr achosion hyn gan gadarnhau bod pedwar o'r unigolion hyn dan sylw yn gymwys i gael presgripsiynau am ddim. O blith y 18 achos arall, roedd pedwar wedi llofnodi Rhan 3 o'r ffurflen ac yn unol â gweithdrefnau cyfredol Health Solutions Wales, ni ddidynnwyd ffi ar gyfer y taliadau a wnaed i'r fferyllwyr. O blith 8 o'r 14 o achosion eraill, am nad oedd Rhan 3 o'r ffurflen wedi ei llofnodi, roedd Health Solutions Wales wedi didynnu'r tâl presgripsiwn o'r taliadau a wnaed i'r fferyllwyr perthnasol yn unol â'i weithdrefnau sefydledig. Fodd bynnag, ni ddidynnwyd ffi yn y chwe achos arall. Yn seiliedig ar y canlyniadau hyn, pe bai Health Solutions Wales wedi cydymffurfio â'i weithdrefnau ei hun ac wedi didynnu'r presgripsiynau perthnasol, dros gyfnod o flwyddyn, gellid bod wedi casglu £740,000 ychwanegol.

**54** Nododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru nad oedd o reidrwydd yn golygu bod yr unigolion wedi hawlio presgripsiwn am ddim yn amhriodol yn yr achosion hyn lle na nodwyd categori eithrio. Fodd bynnag, dylai'r gwiriadau wrth ddosbarthu fod wedi amlygu'r achosion hyn, a gellid bod wedi cywiro'r ffurflenni yn gywir ar adeg dosbarthu.

## Pa mor dda y mae'r gwiriadau wrth ddosbarthu yn gweithredu'n ymarferol?

**55** Yn amlwg, prif gyfrifoldeb fferyllwyr yw sicrhau eu bod yn dosbarthu'r cyffuriau a'r cyfarpar a ragnodir gan feddygon yn briodol ac yn ddiogel. Yn ogystal, mae fferyllwyr yn chwarae rôl allweddol wrth gadarnhau bod unigolion yn gymwys i gael eu heithrio rhag talu taliadau presgripsiynau ac yn wir mae'r Cynulliad yn eu talu am wneud y gwiriadau perthnasol wrth ddosbarthu sy'n cadarnhau eithriad.

**56** Dengys canlyniadau'r archwiliad a'r dadansoddiad a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru nad yw rhai fferyllwyr o bosibl yn gwneud y gwiriadau hyn mor ofalus neu mor gyson ag sydd ei angen yn ôl eu hamodau gwasanaeth. Mae'n bosibl dyfalu ynglŷn â'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Un o'r ffactorau o bosibl yw bod fferyllwyr yn anfodlon i wneud y gwiriadau hyn mewn ffordd a fyddai'n amharu ar y berthynas â'u cleifion. Yn wir mae peth tystiolaeth gan unigolion sy'n awgrymu nad yw rhai cleifion yn fodlon gyda cheisiadau am dystiolaeth o'r hawl i gael eu heithrio. Ffactor pwysig arall yw'r setiau cymhleth o wahanol feini prawf sy'n sicrhau eithriad rhag taliadau presgripsiynau. Dengys yr achosion a archwiliwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod rhywfaint o ansicrwydd a diffyg gwybodaeth ymhlith ceiswyr ynglŷn â'r gwahanol gategorïau eithrio. Hwyrach bod rhai fferyllwyr hefyd yn ansicr.

**57** Ategir y farn hon gan y canfyddiad mai dim ond mewn 15 y cant o'r achosion lle y nododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru nad oedd, ar yr olwg gyntaf, unrhyw hawl i eithriad yr oedd nodyn ar y ffurflenni presgripsiwn 'ni welwyd tystiolaeth' (paragraff12). Awgryma hyn fod peth tystiolaeth wedi ei rhoi yn yr achosion eraill y'i dehonglwyd gan y fferyllwyr ei bod yn cadarnhau bod y claf yn gymwys i gael ei eithrio rhag talu taliadau presgripsiynau.

**58** Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r farn bod canlyniadau ei archwiliad yn dangos bod angen i'r Cynulliad bwysleisio i'r fferyllwyr pa mor bwysig yw'r gwiriadau wrth ddosbarthu a'r rôl allweddol sydd ganddynt wrth wirio'r hawl i eithriad. Er mwyn hwyluso'r broses hon, dylai'r Cynulliad ystyried gyda chyrff yn cynrychioli'r proffesiwn fferyllwyr pa gyngor a chymorth pellach y gallent hwy eu rhoi i helpu fferyllwyr i wneud y gwiriadau hyn yn fwy cywir ac effeithiol. Un agwedd ar hyn fyddai ystyried a oes lle i gyflwyno'r arweiniad a roddir i'r fferyllwyr ar feini prawf gwahanol mewn modd mwy cyfleus.

**59** Yn ogystal, yn nhyb Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, mae'r mater yn un llawer ehangach na rôl y fferyllydd yn unig. Pan gyflwynwyd y gwiriadau wrth ddosbarthu, un o'r penderfyniadau sylfaenol a wnaed oedd y gallai cleifion gael eu heitemau a ragnodwyd am ddim hyd yn oed os nad oedd ganddynt dystiolaeth ddogfennol a oedd yn profi bod hawl ganddynt ar adeg dosbarthu. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar y farn bod unigolion yn parhau i fod yn gyfrifol am gywirdeb a gonestrwydd eu cais am gael eu heithrio. Fodd bynnag, er mwyn i drefniadau o'r fath weithio'n effeithiol mae angen rheolaethau eraill i ategu'r gwiriadau wrth ddosbarthu. Ar y lleiaf, dylid mynd ar drywydd cyfran y ffurflenni presgripsiwn hynny ar wahân lle mae'r fferyllwyr wedi rhoi nodyn na welwyd tystiolaeth er mwyn cadarnhau bod hawl i eithrio. Gellid ymestyn y trefniant hwn yn ei dro i brofi cymhwyster ar gyfer eithrio rhag taliadau presgripsiynau mewn hapsampl o achosion.

## Anawsterau wrth brosesu a brofir gan Health Solution Wales ar hyn o bryd

**60** Nid yw'r problemau gweithredu a gafodd Health Solutions Wales yn ystod 1999 a hyd yn hyn yn 2000 wedi helpu i sicrhau amgylchedd rheoli cadarn sy'n mwyhau'r incwm oddi wrth bresgripsiynau. Yn ystod 1999-2000 bu prinder o gyffuriau generig penodol, yn bennaf oherwydd bod un o'r prif weithgynhyrchwyr cyffuriau generig wedi cau. Yn y gorffennol mae'r rhan fwyaf o'r cyffuriau generig wedi eu dosbarthu yn unol â Chategori A y Rhestr Prisiau Cyffuriau a baratoir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a'r Cynulliad mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol ac sy'n rhoi pris cyffredin yn seiliedig ar fasged o brisiau gan brif weithgynhyrchwyr cyffuriau generig. Pan fydd prinder cyffuriau generig, yna rhestrir y cyffuriau hyn yng Nghategori D y Rhestr Prisiau Cyffuriau. Yna rhoddir pris penodol i gyffuriau a restrir yng Nghategori D sy'n dibynnu ar y gweithgynhyrchwr er mwyn adlewyrchu eu

diffyg argaeledd yn hytrach na phris cyfartalog a bennir fel arall heb ystyried y gweithgynhyrchwr.

**61** Arweiniodd prinder y cyffuriau generig at gynnydd yn nifer y cyffuriau yn rhestr Categori D o ugain eitem ar gyfartaledd mewn mis arferol i uchafswm o 180 o eitemau ym mis Hydref 1999, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r meddyginiaethau a ragnodir fwyaf. Oherwydd bod angen amser ychwanegol i brisio cyffur Categori D, roedd goblygiadau sylweddol iawn o ran baich gwaith i Health Solutions Wales, fel y bu i'r Awdurdod Prisio Presgripsiynau yn Lloegr a chafwyd cryn ôl-groniad o waith erbyn Hydref 1999.

**62** Cyfrannodd dau ffactor arall at yr anawsterau gweithredu y mae Health Solutions Wales yn eu hwynebu:

- Rhwng mis Hydref 1999 a mis Ionawr 2000, symudodd Health Solutions Wales o'i hen leoliad yn Nhŷ Crughywel i Dŷ Brunel, Caerdydd.

- Ym 1998, rhoddodd Health Solutions Wales gontract ar gyfer datblygu a gweithredu system gyfrifiadurol newydd erbyn Rhagfyr 1999 yn lle system nad oedd yn cydymffurfio â'r Flwyddyn 2000. Gweithredwyd y system hon yn rhannol ar ddechrau 2000. Mae wedi bod yn cael ei haddasu trwy gydol 2000 bron ac nid yw Health Solutions Wales yn disgwyl i'w gweithredu'n llawn tan ddiwedd Ionawr 2001.

**63** Gwnaed taliadau ymlaen llaw i fferyllfeydd yn ystod y cyfnod hwn. Seiliwyd y rhain ar gost gyfartalog presgripsiynau a ddosberthir gan fferyllfa ym mis Medi 1999, gan eu codi un y cant ar gyfer pob mis. Y mae'r amhariad i'r proses prisio normal hefyd wedi canlyn mewn gwybodaeth gyfyngedig am ragnodi yn cael eu dosbarthu i awdurdodau iechyd, grwpiau iechyd lleol a meddygon y teulu. Ailsefydlwyd prisio llawn ar gyfer presgripsiynau a ddosberthir yn 2000-01. Dywedodd Health Solutions Wales wrth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod prisio llawn tua chwe wythnos ar ei hôl hi erbyn mis Medi 2000 a'i fod yn disgwyl iddo fod yn gwbl gyfredol erbyn canol 2001, ar ôl prosesu'r presgripsiynau a ddosberthir ym mis Ebrill 2001.

**64** Mae'r Cynulliad wedi gwneud taliad untro o £500,000 i Health Solutions Wales i recriwtio aelodau ychwanegol o staff i helpu i glirio'r ôl-groniad. Yn ogystal, mae swyddogion y Cynulliad ar hyn o bryd yn llunio cynigion a fydd yn cael eu cyflwyno i'w trafod gyda Phwyllgor Fferyllol Canolog Cymru er mwyn cytuno ar daliad terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999-2000. Fel rhan o'i gwaith ar gyfrifon cryno'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ar gyfer 1999-2000, bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ystyried effaith y problemau gweithredu a gafodd Health Solutions Wales yn fanylach a'r camau a gymerwyd i ymdrin â hwy.

**65** Yn fwy cyffredinol, mae'r problemau a gafodd Health Solutions Wales wedi dangos pa mor fregus yw'r trefniadau presennol a bod angen datblygu prosesau busnes gwell rhwng Health Solutions Wales, meddygon teulu a fferyllwyr. Yn erbyn y cefndir hwn, mae Cymru a Lloegr wedi cyhoeddi eu bod yn bwriadu cynnal cynlluniau peilot ar gyfer 'ePrescribing' mewn rhai ardaloedd. Dywedodd y Cynulliad wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod trafodaethau gydag ystod o gyflenwyr posibl wedi eu cynnal a bod cynlluniau peilot bach wedi eu rhoi ar waith. Wrth lansio'r cynllun yn Lloegr, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd, Yr Arglwydd Hunt, y gallai'r strategaeth helpu i wrthsefyll twyll presgripsiynau yn ogystal â sicrhau bod y broses bresgripsiynau yn fwy effeithiol trwy gyflwyno gwiriadau mwy trylwyr ar gymhwyster cleifion i gael meddyginiaethau am ddim.

## Datblygiadau Eraill

**66** Mae nifer o ddatblygiadau pwysig eraill sy'n effeithio ar ragnodi yng Nghymru. Mae'r datblygiad cyntaf yn ymwneud â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y Cynulliad ar ddiwedd 1999. Ei gylch gwaith yw

- ystyried yr opsiynau sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wella'r broses o ragnodi cyffuriau, darparu gwasanaethau fferyllol a chyflenwi cyffuriau yng Nghymru, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol o fewn fframwaith pŵer a chyfrifoldebau'r Cynulliad;

- meintioli'r manteision tebygol a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r opsiynau hyn;

- nodi rhwystrau rhag gweithredu a'r camau y gall y Cynulliad eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hyn;

- ystyried pa wybodaeth y dylai'r Cynulliad geisio ei chasglu ynglŷn â'r angen am gyffuriau a ragnodir o ran iechyd a lles cyffredinol pobl Cymru, a sut y dylid bodloni'r gofynion gwybodaeth hyn.

Nid yw cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys taliadau cleifion a threfniadau eithrio.

**67** Mae aelodaeth y Grŵp yn amlddisgyblaethol ac fe'i cadeirir gan Dr Norman Mills. Cyhoeddodd y Grŵp ddogfen ymgynghori ar ddiwedd mis Gorffennaf gyda'r nod o lunio adroddiad drafft erbyn diwedd y flwyddyn.

**68** Mae'r ail ddatblygiad yn ymwneud â menter o bwys i wrthsefyll twyll yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2000 cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd fod y Cynulliad yn dod yn bartner i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwrth Dwyll yn Lloegr yn ei strwythur gweithredol gwrth dwyll. Diben y cydweithio gyda'r Gwasanaethau gweithredol Gwrth Dwyll yw rhoi gwasanaeth cynhwysfawr sy'n ymestyn i'r sector sylfaenol a'r sector eilaidd. Bydd hyn yn cwmpasu atal twyll trwy sefydlu gweithdrefnau priodol; nodi ac erlyn twyll; yr adennill arian a gollwyd trwy dwyll; a thrwy'r camau hyn darbwyllo pobl rhag cyflawni twyll. Bydd y Pwyllgor Archwilio am nodi bod Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn bwriadu archwilio nifer o bynciau sy'n ymwneud â thwyll fel rhan o'i gwaith ar gyfrifon cryno'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ar gyfer 1999-2000. Bydd Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn parhau i fod yn gyfrifol am atal a chanfod twyll. Bydd y gwasanaeth newydd yn cynorthwyo'r gwasanaethau unigol, yn ogystal â rhoi gwybodaeth eglur i'r Cynulliad ynglŷn â chwmpas y gwaith gwrth dwyll yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a pha mor llwyddiannus ydyw.

**69** Cyflwynwyd gwiriadau eithrio wrth roi triniaeth ar gyfer gwasanaethau deintyddol yn Lloegr yn ddiweddar a'r dyddiad targed ar gyfer cyflwyno'r gwiriadau hyn yng Nghymru yw 1 Ionawr 2001. Bydd gwiriadau eithrio wrth gyflwyno gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau optegol yn cael eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr ym mis Chwefror 2001. Mae'r Cynulliad yn paratoi deddfwriaeth ar hyn o bryd i gyflwyno system o daliadau cosb lle yr hawliwyd eithriadau wrth ddosbarthu neu wrth roi triniaeth neu wrth gyflwyno gwasanaeth yn dwyllodrus. Dywedodd y Cynulliad wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mai'r bwriad yw y bydd y taliadau cosb yn eu lle erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

**70** Yn olaf, wrth i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, roedd y Cytundeb Partneriaeth a gyhoeddwyd gan Gabinet newydd y Cynulliad wedi cynnwys ymrwymiad i rewi taliadau presgripsiynau ar gyfer 2001-02 er mwyn ystyried ymestyn y trefniadau eithrio i grwpiau eraill o gleifion ar gyfer 2001-02, gan ddechrau gyda chleifion rhwng 16 a 25 oed.

## Casgliad ac argymhellion

**71** At ei gilydd, roedd canlyniadau'r archwiliad yn dangos nad yw'r gwiriadau wrth ddosbarthu a gyflwynwyd yng Nghymru ym mis Ebrill 1999 yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. O ganlyniad mae'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn colli refeniw am fod cyffuriau a chyfarpar fodd bynnag yn cael eu rhoi yn rhad ac am ddim i unigolion nad ydynt yn gymwys i gael eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau. Mae'n bosibl bod y swm dan sylw yn un sylweddol. Ar sail ei archwiliad o 1,996 o achosion, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn amcangyfrif, gan ganiatáu am ansicrwydd ystadegol, fod tua £15 miliwn o incwm yn cael ei golli o bosibl bob blwyddyn,. Ar y cyfan gall y gost i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru fod yn uwch. Y rheswm am hyn yw bod y meini prawf sy'n sicrhau eithriad rhag taliadau presgripsiynau yn go debyg i'r rhai sy'n sicrhau mynediad am ddim i wasanaethau gofal iechyd sylfaenol megis triniaeth ddeintyddol a rhai gwasanaethau opthalmig. O ganlyniad mae'n bosibl bod rhai o'r risgiau a'r gwendidau a nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mewn perthynas â thaliadau presgripsiynau yn berthnasol i'r meysydd hyn yn ogystal.

**72** Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r farn y dylai'r Cynulliad adeiladu ar y mentrau sydd eisoes mewn lle. Mae'r camau penodol y mae'n argymell y dylai'r Cynulliad eu cymryd fel a ganlyn:

- Mae cyflwyno gwiriadau eithrio wrth roi triniaeth ar gyfer gwasanaethau deintyddol a gwiriadau eithrio ar gyfer gwasanaethau optegol yng Nghymru y flwyddyn newydd yn rhoi cyfle i'r Cynulliad ail-lansio'r gwiriadau wrth ddosbarthu. Yn benodol, gallai'r Cynulliad bwysleisio unwaith eto i'r fferyllwyr pa mor bwysig yw gwiriadau wrth ddosbarthu a'r rôl allweddol y maen nhw'n chwarae wrth gadarnhau cymhwyster ar gyfer eithriad rhag taliadau presgripsiynau.

- Dylai menter y Cynulliad ar gyfer gwrthsefyll twyll yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru symbylu camau cadarn i ganfod ac atal achosion o dorri'n fwriadol reolaethau sydd â'r nod o sicrhau mai dim ond y rhai sy'n bodloni'r meini prawf sy'n cael eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau. Mae'r trefniadau y mae'r Cynulliad yn eu sefydlu ar gyfer cyflwyno taliadau cosb hefyd yn bwysig yn hyn o beth.

- Er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio'n effeithiol bydd yn rhaid i'r Cynulliad roi sylw priodol i sicrhau bod y gwasanaeth gwrth dwyll newydd a'r Awdurdodau Iechyd yn cael arweiniad eglur ynglŷn â'u priod rolau a chyfrifoldebau. Bydd angen hefyd i'r Cynulliad sicrhau bod prosesau yn eu lle a fydd yn caniatáu i wiriadau dilynol effeithiol gael eu gwneud er mwyn cadarnhau cymhwyster ar gyfer eithriad rhag taliadau presgripsiynau.

- Roedd canlyniadau'r archwiliad a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn nodi dau faes y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig iddynt:
  - yr angen i atgyfnerthu'r gwiriadau wrth ddosbarthu gyda gwiriadau ychwanegol a fydd yn cadarnhau'r hawl i gael eithriad, mewn cyfrannedd o'r achosion hynny lle mae'r fferyllydd yn rhoi'r nodyn 'heb weld tystiolaeth' ar y ffurflen bresgripsiwn.

- yr angen am wiriadau ychwanegol eraill a fydd yn cadarnhau eithriad rhag taliadau presgripsiynau ar sail hap mewn sampl o achosion gan ddefnyddio ymagwedd debyg i'r hyn a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

- Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cydnabod y bydd yn rhaid i'r Cynulliad, wrth ddatblygu'r ymagwedd hon, wrthbwyso'r gost o orfodi'r meini prawf ar gyfer eithrio rhag taliadau presgripsiynau yn fwy cadarn yn erbyn y refeniw ychwanegol y gellir ei gynhyrchu. Byddai angen i'r Cynulliad hefyd oruchwylio'r broses o ddatblygu trefniadau partneriaeth gyda'r Asiantaeth Budd-daliadau a sefydliadau eraill er mwyn hwyluso'r gwaith o sefydlu rheolaethau a gwiriadau mwy llym.

- Yn gysylltiedig â hyn bydd angen sicrhau bod Health Solutions Wales yn goresgyn y problemau gweithredu a gafodd ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod gorfodi mwy cadarn yn cael ei wireddu. Mae rhai camau ymarferol y gallai'r Cynulliad eu cymryd i helpu er enghraifft sicrhau bod ffurflenni presgripsiwn yn caniatáu i fferyllwyr nodi'n glir nad ydynt wedi gweld tystiolaeth sy'n cadarnhau eithriad rhag taliadau presgripsiynau. Dylai'r Cynulliad ystyried ai'r ffordd orau y gellid gwneud hyn yw fel rhan o arolwg o fformat a chyflwyno ffurflenni presgripsiwn yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio gan gleifion, fferyllwyr, Health Solutions Wales a'r rhai a fydd yn gyfrifol am unrhyw wiriadau canlynol sy'n cadarnhau'r hawl i gael eithriad rhag taliadau presgripsiynau.

- Yn ogystal dylai'r Cynulliad ystyried a fydd unrhyw wiriadau ychwanegol neu ategol a sefydlir ganddo ar gyfer gwiriadau wrth ddosbarthu hefyd yn berthnasol i wiriadau eithrio wrth roi triniaeth ar gyfer gwasanaethau deintyddol a gwiriadau eithrio wrth roi gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau optegol.

- Ochr yn ochr â'r camau a nodir uchod, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd yn argymell y dylai'r Cynulliad ystyried gyda chyrff yn cynrychioli'r proffesiwn fferyllwyr pa gyngor a chymorth pellach y gallai ei roi i helpu fferyllwyr i gyflawni gwiriadau wrth ddosbarthu yn fwy cywir ac effeithiol. Dylai hyn gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno arweiniad mewn ffordd fwy hwylus a sicrhau bod yr arweiniad hwnnw yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

- Dylai'r Cynulliad geisio cyflwyno gwiriadau wrth ddosbarthu ar gyfer eithriadau yn gysylltiedig ag oedran mor fuan â phosibl. Yn y cyfamser, dylai'r Cynulliad sicrhau bod fferyllwyr yn cadarnhau'n benodol bod y meini prawf eithrio perthnasol wedi eu bodloni lle y mae eithriad yn gysylltiedig ag oedran yn cael ei hawlio ac mae'r ffurflen bresgripsiwn yn cofnodi oedran neu ddyddiad geni'r unigolyn.

**73** I grynhoi, bydd y Cynulliad yn dymuno nodi bod yr adroddiad hwn yn rhan o gyfres o waith bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynllunio gwneud mewn perthynas â rhagnodi a thopigau cysylltiedig. Fel rhan o'i waith ar gyfrifon crynodedig Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ym 1999-2000, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn bwriadu archwilio'r problemau gweithredu a brofwyd gan Health Solutions Wales yn ogystal â nifer o dopiau sy'n gysylltiedig â thwyll (paragraffau 64 a 68). Yn ychwanegol, unwaith mae'r Cynulliad wedi ymateb i waith y grŵp Gorchwyl a Gorffen (paragraffau 66 a 67), bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn adnabod materion pellach dan sylw yn gysylltiedig â rhagnodi i'w harchwilio a bydd yn adrodd am hyn.

# ATODIAD 1

## Cyflyrau Meddygol Penodol sy'n Eithrio Person rhag Talu Tâl Presgripsiwn

- Ffistwla parhaol (er enghraifft caecostomi, colostomi, laryngostomi neu ileostomi) sy'n gofyn am rwymiad meddygol neu gyfarpar parhaol
- mathau o ddiffyg ar yr arennau (er enghraifft, clefyd Addison) lle y mae therapi amnewid penodol yn hanfodol
- diabetes insipdus a mathau eraill o ddiffyg ar y pitwitari
- diabetes mellitus ac eithrio pan fo'r driniaeth drwy ddiet yn unig
- hypoparathyroidism
- myasthenia gravis
- mycsiodema neu gyflyrau eraill lle mae angen hormon thyroid atodol
- epilepsi sy'n gofyn am therapi gwrthddirdynnol parhaus

Ni ellir rhoi presgripsiynau am ddim oni fydd y person yn dioddef o unrhyw un o'r cyflyrau uchod a bod tystysgrif eithrio feddygol ganddo.

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Auditor General for Wales